OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2013 Rhif 217 (Cy. 29)

LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2013

Gwnaed - - - - 4 Chwefror 2013
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - - 6 Chwefror 2013
Yn dod i rym - - 1 Mawrth 2013

Caiff y Rheoliadau hyn eu gwneud drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 39 a 58 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004(**1**).

Fel y mae'n ofynnol gan adran 39(2) o'r Ddeddf honno, mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori ag Archwilydd Cyffredinol Cymru, y cymdeithasau hynny o awdurdodau lleol yr oedd yn ymddangos iddynt eu bod yn ymwneud â hyn a'r cyrff hynny o gyfrifwyr yr oedd yn ymddangos iddynt eu bod yn briodol.

Yn unol â hynny, mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2013.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn dod i rym ar 1 Mawrth 2013.

Diwygio Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005

2.—(1) Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005(**2**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 7 (datganiad o gyfrifon) ym mharagraff (2)—

(a) yn lle is-baragraff (d) rhodder—

"(d) comisiynydd heddlu a throsedd;";

(b) cyn is-baragraff (dd), mewnosoder—

"(da) prif gwnstabl a sefydlwyd o dan adran 2 o Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011(**3**);".

(**1**) 2004 p.23. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).
(**2**) O.S. 2005/368 (Cy.34).
(**3**) 2011 p.13.